Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Terrig
# Ffordd Y Llan
# Treuddyn
# Yr Wyddgrug
# Sir y Fflint
# CH7 4LN

## Dyddiad yr arolygiad: Ionawr 2018

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Terrig

Lleolir Ysgol Gymraeg Terrig ym mhentref Treuddyn, yn awdurdod lleol Sir y Fflint. Mae'r ysgol yn gwasanaethu'r pentref yn bennaf, ond daw nifer o ddisgyblion o'r ardal gyfagos. Cymraeg yw prif gyfrwng gwaith a bywyd yr ysgol ac fe gyflwynir Saesneg yng nghyfnod allweddol 2.

Mae'r ysgol yn darparu addysg ar gyfer disgyblion rhwng 3 ac 11 oed. Yn ystod yr arolygiad, roedd 59 o ddisgyblion ar gofrestr yr ysgol. Daw tua 13% o'r disgyblion o gartrefi lle siaredir y Gymraeg ac nid oes neb o gartrefi lleiafrifol ethnig.

Dros dreigl tair blynedd, mae 10% o'r disgyblion yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim. Mae hyn yn is na'r canran cenedlaethol, sy'n 19%. Mae'r ysgol wedi adnabod tua 39% o ddisgyblion fel rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae hyn yn uwch na'r canran cenedlaethol, sy'n 21%.

Roedd y pennaeth yn bennaeth dros dro o fis Ionawr 2012 tan dymor yr haf 2014. Penodwyd y pennaeth i'w swydd yn barhaol ym mis Medi 2014. Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Ebrill 2012.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym

## Crynodeb

Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd da o'u mannau cychwyn. Mae bron pob disgybl yn ymddwyn yn dda ac maent yn awyddus i ddysgu. Mae athrawon yn darparu gweithgareddau ysgogol sy'n datblygu medrau disgyblion yn effeithiol. Mae'r ysgol yn gymuned ofalgar a chynhwysol sy'n annog disgyblion i ddangos lefel uchel o barch a goddefgarwch at eraill. Yn Ysgol Terrig, mae lles disgyblion yn ganolog i waith yr ysgol. Un o gryfderau'r ysgol yw ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae'r ysgol yn elwa o arweinyddiaeth gadarn gyda ffocws cryf ar wella safonau a sicrhau bod yr holl ddisgyblion yn cyflawni'n dda.

| **Maes arolygu** | **Barn** |
|---|---|
| **Safonau** | **Da** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Da** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Da** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Argymhellion

A1 Gwella medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) disgyblion

A2 Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg gan ddisgyblion mewn sefyllfaoedd anffurfiol

A3 Darparu digon o gyfleoedd i ddisgyblion weithio'n fwy annibynnol

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Da**

Mae medrau sylfaenol llawer o ddisgyblion mewn iaith a datblygiad mathemategol wrth iddynt gychwyn yn yr ysgol yn is na'r disgwyl. Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae'r rhan fwyaf, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol, yn gwneud cynnydd da.

Ar draws yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn gwrando a chanolbwyntio'n dda. Gallant alw i gof dysgu blaenorol, gan ddefnyddio'r wybodaeth yn bwrpasol yn eu gwaith. Er bod llawer o ddisgyblion yn ymuno â'r ysgol heb y gallu i siarad Cymraeg, maent yn caffael yr iaith yn gynnar iawn. Mae llawer o ddisgyblion y cyfnod sylfaen yn cyfathrebu'n addas yn y Gymraeg, gan ddefnyddio geirfa addas i'w hoed a'u gallu. Mae hyn yn datblygu'n ymhellach yng nghyfnod allweddol 2, gyda llawer yn siarad yn hyderus mewn sefyllfaoedd ffurfiol. Fodd bynnag, nid ydynt yn fodlon siarad mewn sefyllfaoedd mwy anffurfiol wrth chwarae ar y buarth a thu allan i'r dosbarthiadau.

Yn y cyfnod sylfaen, mae llawer o ddisgyblion yn darllen ar lefel sy'n briodol i'w hoed a'u gallu. Maent yn darllen gyda mynegiant priodol, gan ddefnyddio strategaethau gwahanol wrth ddarllen geiriau anghyfarwydd. Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn darllen ystod o ddeunyddiau darllen yn effeithiol yn Saesneg ac yn y Gymraeg. Ar draws y cyfnod, mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio eu medrau cywain gwybodaeth yn llwyddiannus i ddod o hyd i wybodaeth benodol o lyfrau. Ar frig yr ysgol, mae llawer yn trafod cynnwys y testun mewn modd aeddfed. Er enghraifft, mae'r disgyblion hŷn yn darllen ystod o lyfrau ar hanes mytholeg ac yn esbonio ystyr y storïau yn glir.

Mae llawer o ddisgyblion yn y cyfnod sylfaen yn gwneud cynnydd da yn eu medrau ysgrifennu cynnar. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion Blwyddyn 2 yn ysgrifennu ystod gynyddol o frawddegau syml, gyda'r mwyafrif o eiriau cyffredin wedi eu sillafu'n gywir a chydag atalnodi pwrpasol. Erbyn diwedd y cyfnod, maent yn defnyddio'u medrau llythrennedd yn effeithiol gan ysgrifennu'n synhwyrol. Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn ysgrifennu'n ddeallus mewn amryw o ffurfiau yn y ddwy iaith gan gyfleu syniadau yn llwyddiannus. Ar y cyfan, mae llawer yn atalnodi'n gywir ac yn defnyddio geirfa eang yn y ddwy iaith i gyfoethogi eu gwaith. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud defnydd cyson ac effeithiol o'u medrau llythrennedd mewn meysydd amrywiol. Er enghraifft, fel rhan o'u gwaith thema, maent yn creu gwaith ysgrifenedig da ar ailgylchu a mynyddoedd Ewrop.

Mae llawer o ddisgyblion yn y cyfnod sylfaen yn datblygu eu medrau rhifedd yn llwyddiannus mewn gwersi mathemateg ac wrth ymwneud â gweithgareddau ymarferol yn yr ardaloedd dysgu. Mae'r disgyblion hŷn yn dangos gafael sicr ar ffeithiau rhif ac yn defnyddio'r wybodaeth yn bwrpasol i ddatrys problemau yn eu gweithgareddau, er enghraifft wrth gyfrif costau gwahanol deganau. Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn mynd i'r afael â gweithgareddau ymarferol yn hyderus, er enghraifft wrth gadw cyfrif o docynnau trên o Nottingham i Birmingham. Mae llawer yn defnyddio ffeithiau rhifau tri-digid a chanrannau'n hyderus. Mae'r disgyblion yn cymhwyso'u medrau rhifedd yn bwrpasol ar draws gwahanol elfennau o'r cwricwlwm.

Ar draws yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau TGCh yn briodol. Yn y cyfnod sylfaen, mae llawer yn defnyddio meddalwedd yn addas i greu lluniau a darnau animeiddio syml. Mae rhan fwyaf y disgyblion ym mlynyddoedd 1 a 2 yn llunio graffiau priodol, er enghraifft i ddangos hoff ffrwythau'r disgyblion yn eu dosbarth. Mae llawer yn creu taflen wybodaeth syml gan uno llun a gair, a rheoli crwban electronig yn effeithiol. Mae mwyafrif y disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn datblygu medrau addas trwy greu rhaglenni syml i reoli crwban ar y sgrin. Mae'r rhan fwyaf yn creu graffiau addas i ddangos allbwn arbrawf gwyddonol. Fodd bynnag, ar hyd yr ysgol, ychydig o ddisgyblion sy'n datblygu dealltwriaeth effeithiol o sut i drin data neu greu taenlenni. Mae gan bron pob disgybl ymwybyddiaeth gadarn o sut i gadw'n ddiogel wrth ddefnyddio'r we.

**Lles ac agweddau at ddysgu: Da**

Mae gan bron pob disgybl agweddau da tuag at ddysgu. Maent yn frwdfrydig ac yn gweithio'n ddiwyd am gyfnodau estynedig wrth drafod gyda'i gilydd ac wrth gwblhau tasgau. Maent yn gwrtais ac yn meithrin perthnasoedd gwaith cryf gydag aelodau staff. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn gweithio'n effeithiol yn unigol, mewn grwpiau ac fel dosbarth, gan ddangos parodrwydd a dyfalbarhad i ddysgu. Mae hyn yn cyfrannu'n fuddiol at ethos dysgu cadarn sy'n cael effaith gadarnhaol ar gynnydd a hyder disgyblion.

Mae ymddygiad bron pob disgybl yn dda yn y gwersi ac o gwmpas yr ysgol. Maent yn feddylgar ac yn trin ymwelwyr ac oedolion gyda pharch. Mae bron bob disgybl yn ofalgar o'i gilydd ac yn cydweithio'n effeithiol. Mae'r disgyblion hŷn yn dangos gofal a charedigrwydd tuag at ddisgyblion iau yn ystod amseroedd egwyl a chinio. Mae gan ran fwyaf y disgyblion ddealltwriaeth dda o bwysigrwydd cadw'n ddiogel ac mae swyddogion TGCh yn gweithredu eu dyletswyddau i raeadru rheolau diogelwch ar y we yn effeithiol.

Mae'r disgyblion yn manteisio ar y cyfleoedd i fynegi barn ynglŷn ag agweddau ar waith yr ysgol. Maent yn lleisio barn yn synhwyrol ar gynnwys thema dosbarth ac yn cynnig syniadau addas am y gweithgareddau yr hoffent eu dysgu. Ar frig yr ysgol, mae gan fwyafrif y disgyblion ddealltwriaeth dda o'u cyrhaeddiad a'r cam nesaf yn eu dysgu.

Mae aelodau'r cyngor ysgol yn cyfrannu'n fuddiol at fywyd yr ysgol, er enghraifft wrth drefnu boreau coffi elusennol a chasglu nwyddau tuag at ffoaduriaid o Syria. Mae hyn yn cryfhau dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth disgyblion o anghenion eraill yn y gymuned a'r byd ehangach. Mae'r disgyblion yn ymfalchïo wrth siarad am yr ysgol ac yn teimlo bod yr ysgol yn trin eu pryderon yn effeithiol.

Mae gan ran fwyaf y disgyblion ddealltwriaeth dda o sut i fyw a bwyta'n iach. Mae'r pwyllgor eco ac aelodau'r cyngor ysgol yn deall pwysigrwydd ymarfer corff a'r effaith gadarnhaol mae hyn yn ei chael ar hybu ffitrwydd. Mae llawer o ddisgyblion yn manteisio ar gyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol, gan gynnwys y clwb pêl-droed wythnosol.

**Addysgu a phrofiadau dysgu: Da**

Mae ansawdd yr addysgu ar draws yr ysgol yn dda. Mae athrawon yn defnyddio ystod o strategaethau addysgu yn llwyddiannus ac yn cyflwyno gwersi bywiog. Maent yn cyflwyno amcanion dysgu penodol i'r disgyblion ac yn darparu

gweithgareddau addas sy'n gweddu'n dda i ddiddordebau disgyblion. Er enghraifft, ym mlynyddoedd 3 a 4, maent yn defnyddio gemau mathemategol cyffrous i ennyn diddordeb y disgyblion. Mae cynlluniau gwaith yr athrawon yn bwrpasol ac yn ystyried gofynion y fframwaith llythrennedd a rhifedd yn dda. Mae'r athrawon yn cynllunio cyfleoedd systematig i sicrhau bod y disgyblion yn datblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd yn llwyddiannus ar draws y cwricwlwm. Er enghraifft, ar draws yr ysgol, maent yn rhoi pwyslais arbennig ar gryfhau medrau darllen disgyblion ac yn cynnal sesiynau penodol bob wythnos i hybu eu dealtwriaeth o lyfrau. Maent yn sicrhau cyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion atgyfnerthu eu medrau mewn ystod o bynciau, yn arbennig yn eu llyfrau thema a gwyddoniaeth. Fodd bynnag, prin yw'r cyfleoedd i ddatblygu agweddau ar fedrau TGCh disgyblion ar draws y cwricwlwm, er enghraifft taenlenni a basau data.

Mae'r athrawon yn holi disgyblion yn dreiddgar ac yn eu hannog i ddefnyddio'u medrau yn gyson. Mae'r athrawon a'r cynorthwywyr dosbarth yn datblygu perthynas weithio effeithiol gyda disgyblion, sy'n meithrin eu dysgu yn llwyddiannus. Mae'r cynorthwywyr yn cydweithio'n agos â'r athrawon i gefnogi unigolion a grwpiau o ddisgyblion penodol. Mae'r athrawon yn rheoli eu hystafelloedd dosbarth yn llwyddiannus, gan hyrwyddo ymddygiad da ac annog disgyblion i ganolbwyntio'n effeithiol ar eu tasgau. Ar adegau, lle nad yw'r addysgu cystal, nid yw'r athrawon yn darparu digon o gyfleoedd i ddisgyblion weithio'n annibynnol.

Mae athrawon yn rhoi adborth llafar ac ysgrifenedig adeiladol a rheolaidd i ddisgyblion ar eu hymdrechion yn y gwersi. Mae gweithdrefnau addas i ddisgyblion arfarnu eu gwaith eu hunain a gwaith eu cyfoedion. Mae athrawon yn sicrhau cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion wella eu medrau a chynnwys gwaith wrth ailddrafftio agweddau penodol.

Mae'r ysgol yn darparu cwricwlwm diddorol sy'n ennyn diddordeb rhan fwyaf y disgyblion yn llwyddiannus. Mae'r cwricwlwm eang yn seiliedig ar themâu a phrofiadau dysgu effeithiol. Gwneir defnydd gwerthfawr o ymwelwyr ac ystod o ymweliadau addysgol, fel yr ymweliad i amgueddfa yn Lerpwl wrth astudio hanes y 1960au a'r Beatles, i gyfoethogi'r cwricwlwm ac i ddatblygu medrau disgyblion.

Mae egwyddorion y cyfnod sylfaen wedi eu sefydlu'n gadarn. Mae athrawon yn gwneud defnydd llwyddiannus o adnoddau'r adeilad a'r safle i gyfoethogi profiadau dysgu'r disgyblion. Maent yn darparu gweithgareddau ffocws a pharhaus priodol sy'n cynnwys cyfleoedd i ddisgyblion ymchwilio a chwarae rôl yn llwyddiannus.

Mae pob aelod o staff yn fodelau iaith da ac mae hyn yn helpu disgyblion i ddatblygu eu medrau llafar Cymraeg. Fodd bynnag, ar adegau, nid yw staff yn sicrhau bod disgyblion yn defnyddio digon o'r Gymraeg mewn sefyllfaoedd anffurfiol. Caiff y ddarpariaeth ar gyfer datblygu'r elfen Gymreig ei hyrwyddo'n effeithiol. Rhoddir lle blaenllaw i ddisgyblion ddysgu am ddiwylliant lleol a chenedlaethol, er enghraifft trwy gystadlu yng ngweithgareddau'r Urdd ac eisteddfodau lleol. Mae'r disgyblion yn cael cyfleoedd buddiol i ymweld â mannau o ddiddordeb yng Nghymru, fel Caer a Big Pit, er mwyn datblygu eu dealltwriaeth o hanes Cymru.

## Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae'r ysgol yn sicrhau ethos cynhwysol a chartrefol i'r holl ddisgyblion ac yn darparu gofal, cymorth ac arweiniad buddiol ar eu cyfer. Mae'r disgyblion yn teimlo bod y

staff yn eu cefnogi ac yn gwrando'n astud ar eu barn. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn ymddwyn yn dda, maent yn gwrtais ac yn barchus at ei gilydd ac ymwelwyr. Mae'r ysgol yn cynnig llawer o gyfleoedd addas i ddisgyblion gymryd cyfrifoldeb. Er enghraifft, mae e-gadetiaid yr ysgol yn rhannu gwybodaeth sy'n helpu disgyblion eraill i ddatblygu'u dealltwriaeth o gadw'n ddiogel ar-lein. Mae trefniadau trwyadl ar gyfer rheoli'r safle. Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau llwyddiannus i olrhain cynnydd disgyblion yn drylwyr. Mae'r staff yn dadansoddi asesiadau athrawon a deilliannau profion cenedlaethol yn dda i fesur cynnydd disgyblion ac er mwyn cynllunio'r camau nesaf yn eu dysgu. Mae gan bob disgybl sydd ag anghenion dysgu ychwanegol gynllun addysg unigol defnyddiol sy'n nodi camau mesuradwy ar eu cyfer ac mae'r cynlluniau'n cael eu hadolygu'n gyson. Mae ansawdd yr ymyrraeth a'r gefnogaeth yn bwrpasol iawn ac mae staff yn monitro cynnydd disgyblion sy'n derbyn ymyraethau yn gydwybodol.

Mae athrawon ac arweinwyr yn meithrin perthynas gadarnhaol gyda rhieni, ac mae'r rhieni'n gwerthfawrogi'r croeso cynnes iawn a dderbyniant yn yr ysgol. Ceir trefniadau llwyddiannus i sicrhau bod rhieni'n chwarae rhan weithredol yn addysg eu plant. Er enghraifft, mae'r ysgol yn trefnu nosweithiau agored a sesiynau hyfforddiant yn rheolaidd er mwyn helpu rhieni i gefnogi eu plant yn effeithiol. Mae sesiynau hyfforddi i rieni a'u plant ar y cyd yn cryfhau'r bartneriaeth rhwng y cartref a'r ysgol ymhellach ac yn gwella medrau llafar a darllen disgyblion.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo iechyd a lles y disgyblion yn effeithiol ac mae trefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Mae athrawon yn darparu ystod o gyfleoedd i sicrhau bod disgyblion yn datblygu medrau hunangymorth priodol. Er enghraifft, mae disgyblion yn cael cyfleoedd rheolaidd i ymweld â fferm leol i ddysgu sut i dyfu llysiau. Mae'r ysgol hefyd yn cynnal clybiau allgyrsiol wythnosol sy'n hyrwyddo iechyd a lles y disgyblion yn llwyddiannus. Enghraifft dda o hyn yw'r clwb pêl-droed sy'n rhoi cyfle i ddisgyblion ddatblygu eu medrau personol a chymdeithasol yn dda. Drwy hyn, mae gan ran fwyaf y disgyblion ddealltwriaeth gadarn o bwysigrwydd byw a chadw'n iach.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu agweddau ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn werthfawr. Mae'r staff yn trefnu cyfleoedd cyfoethog iddynt fyfyrio mewn gwasanaethau, sy'n aml yn seiliedig ar storïau o'r Beibl. Mae'r ysgol yn gwahodd ymwelwyr ac aelodau o'r gymuned yn rheolaidd i gydweithio â'r disgyblion er mwyn datblygu eu medrau ieithyddol, celfyddydol a chreadigol. Caiff y disgyblion gyfleoedd niferus i berfformio yn y gymuned ac ar lwyfannau cenedlaethol mewn eisteddfodau a chyngherddau. Mae ystod o gyfleoedd llwyddiannus i ddisgyblion arbrofi ag amrywiaeth o gyfryngau wrth astudio gwaith arlunwyr a beirdd Cymreig cyfoes. Mae hyn yn cryfhau hunanhyder a lles disgyblion yn dda.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da

Mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth gref ac yn ffocysu'n llwyddiannus ar godi safonau disgyblion. Mae pob un o'r staff yn ei chynorthwyo'n fedrus i sicrhau bod disgyblion yn gwneud cynnydd da. Mae cymuned yr ysgol gyfan yn gweithio fel tîm agos er budd yr holl ddisgyblion ac maent yn sicrhau bod lles y disgyblion yn ganolog i gymuned yr ysgol.

Mae'r pennaeth yn darparu gwybodaeth fuddiol i'r corff llywodraethol trwy adroddiadau trwyadl sydd bob amser yn canolbwyntio ar safonau'r dysgu ac addysgu. O ganlyniad, mae gan lywodraethwyr afael da ar safonau'r ysgol. Maent yn ymwybodol o gryfderau'r ysgol a'r meysydd sydd angen eu gwella. Maent yn cefnogi'r ysgol yn effeithiol ac yn herio arweinwyr yn bwrpasol. Er enghraifft, maent yn holi'n gyson ynglŷn â safonau, y niferoedd ar y gofrestr anghenion dysgu, a'r cynllun datblygu ysgol. Mae'r corff llywodraethol yn cyflawni ei rôl statudol yn effeithiol.

Mae gweithdrefnau hunanarfarnu'n gynhwysfawr ac maent yn ystyried ystod eang o dystiolaeth uniongyrchol fel dadansoddi data, arsylwadau o wersi, teithiau dysgu, ffocysu ar waith disgyblion a gwrando ar staff, rhieni a llywodraethwyr drwy holiaduron. Gwneir defnydd da o'r holl wybodaeth hunanarfarnu gan staff i nodi blaenoriaethau gwella'r ysgol ac i adolygu cynnydd yn erbyn y blaenoriaethau yn y cynllun datblygu ysgol. Mae'r cynllun yn cynnwys camau gweithredu perthnasol a mesuradwy ar gyfer gwella, yn adnabod cerrig milltir clir ar gyfer monitro ac yn dangos y staff a'r llywodraethwr sydd yng ngofal pob agwedd.

Mae gan y staff swydd ddisgrifiadau clir a chyfredol. Mae'r cyfarfodydd staff rheolaidd yn trafod safonau a lles y disgyblion gan ganolbwyntio'n dda ar ymateb yr ysgol i flaenoriaethau gwelliant. Mae'r gweithdrefnau ar gyfer rheoli perfformiad staff yn gadarn ac yn cysylltu'n glir â blaenoriaethau datblygu'r ysgol ynghyd â gofynion proffesiynol unigol y staff.

Mae pob un o'r staff yn rhannu ymrwymiad ar y cyd i weledigaeth a gwerthoedd y pennaeth. Mae hi'n fodel rôl cryf a phroffesiynol ac mae ganddi ddisgwyliadau uchel o'r disgyblion, athrawon a chynorthwywyr dysgu. Mae'r arfer dda sy'n bodoli o fewn yr ysgol yn cael ei rhannu'n effeithiol ac mae'r pennaeth ei hun yn modelu gwersi iaith i'r athrawon newydd gymhwyso. Mae gan yr ysgol ffocws penodol ar ddatblygu medrau'r holl staff ac mae ystod werthfawr o gyfleoedd hyfforddiant a chyrsiau penodol ar eu cyfer. Enghraifft effeithiol o hyn yw'r hyfforddiant buddiol yn ddiweddar i weithredu'r cynllun newydd ar gyfer codi safonau mathemateg. Mae'r ysgol hefyd yn cydweithio'n llwyddiannus ag ysgolion cyfagos i rannu arfer dda. Er enghraifft, mae'r athrawon yn cael cyfleoedd i arsylwi'r cynllun iaith ar waith mewn ysgolion cyfagos.

Mae'r ysgol yn dyrannu adnoddau ariannol yn llwyddiannus yn unol â blaenoriaethau'r cynllun datblygu ysgol. Mae grantiau penodol yn cael eu defnyddio'n bwrpasol i sicrhau cynnydd da i grwpiau penodol o ddisgyblion. Gwneir defnydd da o'r grant datblygu disgyblion i wella ymhellach y ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau llythrennedd a lles disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau bwyd am ddim. O ganlyniad, mae rhan fwyaf y disgyblion sy'n gymwys yn gwneud cynnydd da yn eu medrau darllen o'u mannau cychwyn.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2018: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 13/03/2018